



# Rhwydwaith Gwledig Cymru

## Adolygiad Cyfathrebu Blynyddol 2019

### Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru

*“sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy”*

#### Ein rôl yw:

- Cyfathrebu, rhannu a chyfnewid gwybodaeth a newyddion.
- Trefnu a hyrwyddo digwyddiadau a mentrau sy'n rhad ac am ddim
- Arddangos enghreifftiau o brosiectau sy'n cael eu hariannu ac o astudiaethau achos
- Dosbarthu a hyrwyddo cyfleoedd i gael cyllid
- Trefnu ymweliadau astudio er mwyn annog pobl i gydweithredu a rhannu gwybodaeth
- Cysylltu busnesau, grwpiau cymunedol, ac eraill sydd â diddordeb mewn Datblygu Gwledig
- Rhannu'r arferion gorau a gwybodaeth ategol yr UE.

### Cadwch Mewn Cysylltiad Â Ni...

Rydym yn cyfathrebu â'n cynulleidfa mewn sawl ffordd, gan gynnwys:



#### Facebook

Rhagfyr 2019:  
**228 o ddilynwyr**  
Hydref – Rhagfyr 2019  
**twf o 3.5%**



#### Twitter

Rhagfyr 2019:  
**1,617 o ddilynwyr**  
Hydref – Rhagfyr 2019  
**twf o 1.7%**



#### Cylchlythyr

Rhagfyr 2018:  
**Saesneg 6,123,**  
**Cymraeg 332**  
Rhagfyr 2019 :  
**Saesneg 6,892,**  
**Cymraeg 344**



#### Yr Hen Wefan

Ionawr 2018 tan fis  
Rhagfyr 2018:  
Edrychwyd Arni  
**26,248 O Weithiau**

#### Y Wefan Newydd

[www.businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/cy](http://www.businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/cy)

Awst 2019 tan fis  
Rhagfyr 2019  
edrychwyd arni  
**55,780 o weithiau**

# Cylchlythyrau

Mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn mynd ati'n rheolaidd i gyhoeddi'r newyddion diweddaraf am bynciau sy'n gysylltiedig â Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae'n gyfle i chi gael y newyddion diweddaraf, i rwydweithio ac i gael enghreifftiau o arferion da ac arloesi o bob cwr o Gymru a thu hwnt. Mae cylchlythyrau'r 3 mis blaenorol ar gael ar wefan RhGC bob amser.

Mae'r cylchlythyr yn rhoi gwybodaeth am gyllid ac yn hysbysebu'r holl Gyfnodau Datgan Diddordeb sydd i ddod.

## Cylchlythyrau 2019:

Cylchlythyr RhGC Ionawr 2019

Cylchlythyr RhGC Chwefror 2019

Cylchlythyr RhGC Mawrth 2019

Cylchlythyr RhGC Ebrill 2019

Cylchlythyr RhGC Mai 2019

Cylchlythyr RhGC Mehefin 2019

Cylchlythyr RhGC Gorffennaf 2019

Cylchlythyr RhGC Awst 2019

Cylchlythyr RhGC Medi 2019

Cylchlythyr RhGC Hydref 2019

Cylchlythyr RhGC Tachwedd 2019

Cylchlythyr RhGC Rhagfyr 2019

## Amserlen Digwyddiadau 2019

Mae Rhwydwaith Gwledig Cymru naill ai wedi trefnu a/neu wedi bod yn bresennol yn y digwyddiadau isod yn ystod y flwyddyn:

### Mis Chwefror:

**21 – 13eg:** Cyfarfod y Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol, Iwerddon. Cyflwyniadau ar themâu penodol a chyfnewid syniadau am sut i gysylltu'r gadwyn gyflawni, trafodaethau am bynciau a gynigiwyd gan Unedau Cymorth Cenedlaethol ac am 'NetworkX'.



### Mis Mawrth:

**1:** Cydweithredu o dan LEADER – Digwyddiad a gynhaliwyd ar y cyd â Rhwydwaith Gwledig yr Alban.



## Mis Ebrill:

11 – 12: Digwyddiad NetworkX Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop, Brwsel Cafodd y digwyddiad hwn ei drefnu gan Rwydwaith ENRD i gydnabod gwerth y Rhwydweithiau, i arddangos eu canlyniadau sydd wedi'u creu dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, gan edrych gyda'i gilydd at y dyfodol. Mae pob un o Rwydweithiau'r UE yn dangos llwyddiannau.



## Mis Medi:

5 & 6: Cyfnewidfa Polisi Gwledig y DU, y Drenewydd.

19 – 15: Cyfarfod Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol, Poitiers, Ffrainc. Aed ati yn y cyfarfod hwn i gyfnewid yr arferion gorau ar gydweithredu tiriogaethol ac ar ymgynghori â rhanddeiliaid.



## Mis Hydref:

14: Gweithdy ar Basportio Coed ac Iechyd Planhigion, Bangor. Trefnodd Rhwydwaith Gwledig Cymru ddau weithdy i'r sector coedwigaeth i egluro'r newidiadau i'r arferion gweithio a chynnig plattform ar gyfer rhanddeiliaid i ofyn cwestiynau am y rheoliadau newydd.



15: Gweithdy ar Basportio Coed ac Iechyd Planhigion, Aberhonddu.





---

17: Ymweliadau Astudio gan Bwyllgor  
Monitro'r Rhaglen – Taf Bargoed, Parc  
Llesiant Bronllys a Chastell y Gelli Gandryll.



---

### Mis Tachwedd:

11: Gweithdy gan Cywain ar y Gadwyn  
Gyflenwi, y Drenewydd.

14: Ffair Gyllid Sir Benfro – Cynrychiolaeth  
a gwaith hyrwyddo gan RhGC

15: Gweithdy ar Fenywod mewn  
Entrepreneuriaeth, Llanfair-ym-Muallt

18 – 19: Digwyddiad gan Rwydwaith Gwledig  
Cenedlaethol y DU, Llangollen



---

20 – 21: Pentrefi Clyfar yr Alban.

Bu cynrychiolydd o'r WRN yn y digwyddiad  
2 ddiwrnod hwn yn yr Alban. Roedd y  
digwyddiad yn cynnwys cyflwyniadau a  
thrafodaeth ar botensial arloesi digidol  
i ddatrys nifer o heriau sy'n wynebu  
cymunedau gwledig. Cynhaliwyd ymweliad  
astudiaeth ar yr ail ddiwrnod.



---

Bu RhGC yn bresennol hefyd yng nghyfarfodydd chwarterol Grŵp Gweithredu Lleol y  
De-orllewin, ac yng nghyfarfodydd chwemisol Grŵp Gweithredu Lleol y De-ddwyrain.

# 2019: Hoelio Sylw Ar Arloesi

Un o'r themâu allweddol sy'n sail i brosiectau a ariennir o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig yw Arloesi. Gwelwyd rhagor o ddatblygiadau eleni o ran prosiectau sy'n hyrwyddo arloesi ac sy'n manteisio ar atebion a gynigir gan dechnolegau digidol. Dyma ambell enghraifft o brosiectau sy'n ariannu'r mathau hynny o weithgareddau:

## Clwb Car Cymunedol Edeirnion

Bydd y prosiect hwn yn treialu clwb car, yn lesio cerbyd trydan, ac yn gosod mannau gwefru cerbydau fel y bo modd gwefru'r cerbyd mewn gwahanol leoliadau cymunedol yn ardal Edeirnion. Cafodd prosiect Clwb Car Cymunedol Edeirnion ei lansio'n swyddogol ar 23 Tachwedd gan Ken Skates, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, a chan Susan Allen AS. Roedd nifer yn bresennol a dangoswyd cryn ddiddordeb gan y wasg, wrth i BBC Wales, BBC Radio Wales a S4C roi sylw i'r prosiect i ddatblygu clwb car trydan. Mae hefyd wedi ennyn diddordeb mewn rhannau eraill o Gymru, ac rydym yn cynnig cymorth dilynol yng Ngheredigion, Powys a Gwynedd. Datblygwyd meddalwedd archebu er mwyn hwyluso'r broses o archebu'r car. Mae'r prosiect ar waith erbyn hyn ac mae 'Neli', y car trydan, i'w weld yn gyrru o amgylch cefn gwlad Sir Ddinbych.



## Rhwydwaith Gwefru E-feiciau

Mae'r prosiect mannau gwefru yng nghefn gwlad yn gynllun arloesol sydd â'r nod o ddatblygu cyfleoedd yn yr awyr agored. Gan fod mwy a mwy o alw am feicio a mwy a mwy o e-feiciau yn yr ardal, gall Conwy elwa ar ddatblygu mannau gwefru symudol a pharhaol yn yr ardaloedd gwledig.

Bydd gweithgareddau'r prosiect yn cynnwys:

- Gosod mannau gwefru parhaol
- Man gwefru symudol er mwyn meithrin mwy o ddiddordeb a chefnogi digwyddiadau sy'n annog pobl i feicio ac sy'n hyrwyddo'r prosiect hwn
- Denu rhagor o ymwelwyr i'r ardaloedd lle mae'r mannau hyn yn cael eu gosod.

## Data Gwynedd

Bydd y prosiect hwn yn dangos:

1. Bod modd casglu data drwy seilwaith digidol cymunedol, e.e. wi-fi cymunedol, TVWS (gofod gwyn ar y teledu)
2. Gall cymunedau ddefnyddio data a gesglir drwy gyfrwng seilwaith digidol i rannu gwybodaeth gyda rhanddeiliaid, cwsmeriaid a grwpiau eraill.

Mae Cyngor Gwynedd wrthi'n gosod wi-fi cymunedol mewn 10 cymuned er mwyn darparu wi-fi rhad ac am ddim ar gyfer y cyhoedd. Bydd y cymunedau hyn yn ychwanegol at y rheini sydd wedi gosod y dechnoleg hon eisoes, e.e. Caernarfon ac Aberdaron.



## Prosiect Ynni'r Haul a Batris / Egni Gwledig CNPT– Castell-nedd Port Talbot

Nod y prosiect hwn ar Fynydd y Gwryd yw cael caniatâd cynllunio ar gyfer fferm solar ar y tir, ac ar gyfer safle storio ynni mewn batris. Mae'r elw yn helpu'r elusen leol Awel Aman Tawe i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ac i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy eraill. Cafodd y fferm wynt ei chwblhau yn 2017 ac mae'r tyrbinau'n cynhyrchu ynni glân, carbon isel. Amcangyfrifir ei bod yn cynhyrchu 12,558 MWh o ynni glân bob blwyddyn, sy'n ddigon ar gyfer 2,500 o gartrefi. Cynhyrchwyd llawer mwy na'r amcangyfrif hwn hyd yn hyn. Rydym wedi cynhyrchu mwy nag 20,000 MWh ac rydym yn dal i gyfrif...




Mae gan Egni Co-op brosiect tebyg hefyd – Egni Gwledig CNPT – mae Egni Co-op yn datblygu ynni'r haul ar doon adeiladau yng Nghymru. Rydym yn cynhyrchu ynni glân, gan alluogi'n safleoedd i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd a bod yn fwy sefydlog yn ariannol. Drwy gynnig cyfranddaliadau, rydym yn rhoi cyfle hefyd i bobl fuddsoddi eu harian er mwyn helpu i greu dyfodol mwy cynaliadwy a chael enillion teg ar eu buddsoddiad. **Ynni Lleol CNPT**

## Defnyddio Gwefan Rhgc I Gyfathrebu

### Mapio Prosiectau'n Rhyngweithiol

Ym mis Ionawr 2019, ychwanegodd Rhwydwaith Gwledig Cymru fap rhyngweithiol i'r wefan er mwyn dangos lle yng Nghymru y mae'r prosiectau sy'n cael eu hariannu drwy LEADER. Gellir defnyddio nifer o feini prawf i hidlo'r map hwn er mwyn ei wneud yn haws i'w ddefnyddio.

Ym mis Medi 2019, ychwanegodd Rhwydwaith Gwledig Cymru Fap ychwanegol i ddangos yr holl brosiectau eraill dan y RhDG. Mae hynny wedi golygu bod modd ychwanegu'r holl brosiectau sy'n cael eu hariannu dan y RhDG i'r cyfeiriadur, gan gynnwys rhai economaidd-gymdeithasol.



## Arferion Gorau / Astudiaethau Achos

Byddwn yn mynd ati'n rheolaidd i ofyn am astudiaethau achos ysgrifenedig ac ar ffurf fideos i'w lanlwytho i wefan RhGC. Cafodd 50 o astudiaethau achos ysgrifenedig a 10 ar ffurf fideos eu lanlwytho yn ystod 2019.

## Straeon Newyddion

Caiff Datganiadau i'r Wasg a Straeon Newyddion eu cyhoeddi ar y dudalen newyddion ar wefan RhGC. 2 y dydd pan fo hynny'n berthnasol.